CYFARFOD AR Y CYD AELODAU'R CABINET AR GYFER TREFNIADAETH A'R GWEITHLU A MATERION GWLEDIG, CYDLYNIANT CYMUNEDOL A PHOLISI CYNLLUNIO

DYDD MERCHER, 15 IONAWR 2025

YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr: A.C. Jones a P.M. Hughes (Aelodau o'r Cabinet)

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:
L. Evans - Rheolwr Polisi ac Ymgysylltu
K. Evans - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod - 10.06yb - 10.27yb

1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

2. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNOD PENDERFYNIADAU Y CYFARFOD AR Y CYD A GYNHALIWYD AR 19FED MAWRTH 2024

PENDERFYNWYD llofnodi cofnod penderfyniadau cyfarfod ar y cyd yr Aelodau Cabinet a gynhaliwyd ar y 19fed Mawrth, 2024 yn gofnod cywir.

3. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2023-25

Bu'r Aelodau Cabinet yn ystyried Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2023-25.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn crynhoi ac yn disodli'r ddeddfwriaeth flaenorol, ynghyd â symleiddio ac atgyfnerthu'r ddeddf fel ei bod yn haws i bobl ei deall a chydymffurfio â hi. Daeth y rhan fwyaf o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010.

Roedd yr adroddiad yn nodi bod dwy flynedd o adroddiadau blynyddol wedi eu dwyn ynghyd i adlewyrchu'r ffaith mai'r ffocws allweddol yn ystod 2023-24 oedd adolygu a chymeradwyo'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Roedd y ddyletswydd gyffredinol newydd yn cwmpasu'r nodweddion gwarchodedig canlynol:

- Oedran
- Ailbennu rhywedd
- Rhyw
- Hil – yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Crefydd a chred – gan gynnwys diffyg cred

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

- Anabledd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd rhywiol.

Fel rhan o'r adroddiad, dangosir cynnydd yn erbyn amcanion cydraddoldeb canlynol Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer 2024-28:

1. Bod yn gyflogwr o ddewis.
2. Galluogi preswylwyr i fyw a heneiddio'n dda.
3. Ymwreiddio Cydlyniant Cymunedol yn ein sefydliad a'n cymuned.
4. Gwarchod a chryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol.

Bydd adroddiadau blynyddol yn cynorthwyo awdurdodau i fonitro eu gwaith eu hunain, yn ogystal â darparu tryloywder i randdeiliaid. Mae'n rhaid i'r adroddiadau blynyddol gynnwys y wybodaeth benodol am gyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth am hyfforddiant a chyflog.

PENDERFYNWYD cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2023-25.

CADEIRYDD **DYDDIAD**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf